**LC534**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygiad Rhif 3) 2002, OS 2002 Rhif 2061 (W.210)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau manwl i'r prif Orchymyn, fel yr esboniwyd ym mharagraffau (a) – (d) y nodyn esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau**

Noda paragraff (a) o'r nodyn esboniadol fod y diffiniad newydd o "anifeiliaid" yn gymwys i "fuail, gwartheg, ceirw, geifr, moch, defaid a baeddod gwyllt." Cymerir yn ganiataol bod "buail" a "baeddod gwyllt" wedi'u cynnwys, yn y drefn honno, o fewn "gwartheg" a "moch". Felly, os ystyriwyd bod angen i'r nodyn esboniadol gyfeirio'n benodol at yr anifeiliaid hyn, byddai wedi bod yn fwy eglur pe bai'r nodyn wedi dangos eu bod wedi'u cwmpasu oherwydd eu bod wedi'u cynnwys yn y categorïau hyn.

Mae gwall ym mharagraff (b) testun Saesneg y nodyn esboniadol – dylai "article 3(3)(b)" ddarllen fel "article 3(2)(b)".

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

15 Hydref 2002